

# Deall absenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru

Adroddiad gan Parentkind ar gyfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

# Cynnwys


**1. Crynodeb gweithredol** **3**

**2. Rhagymadrodd** **6**

**3. Methodoleg** **7**

**4. Demograffeg yr ymatebwyr** **8**

**5. Canlyniadau** **10**

5.1 Disgwyliadau a pholisïau presenoldeb 10

5.2 Rhwystrau rhag mynychu'r ysgol 13

5.3 Y gefnogaeth a gynigir 20

5.4 Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd 23

5.5 Ymgysylltu ag asiantaethau eraill 24

5.6 Graddfa cymorth ysgol 27

5.7 Hysbysiadau/dirwyon cosb benodedig 33

**6. Casgliadau** **34**

**7. Atodiad** **36**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Cyn cyhoeddi canllawiau presenoldeb newydd yn ddiweddarach eleni, comisiynodd Llywodraeth Cymru Parentkind i gynnal ymchwil ymhlith rhieni a gofalwyr yng Nghymru sydd â phlentyn â phroblemau presenoldeb, i ddeall mwy am y rhesymau dros eu habsenoldeb, y cymorth a gynigir, a pha gymorth y byddai eu teulu'n ei gael yn ddefnyddiol. Roedd arolwg ar-lein, a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gwahodd rhieni a gofalwyr â phlentyn â phroblemau presenoldeb gwael i lenwi'r holiadur ar-lein.[1]**

**Cwblhaodd 2,616 o rieni'r arolwg i gyd, gyda 654 ohonynt gan rieni â phlentyn sydd wedi cael mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb mewn blwyddyn ysgol (ac eithrio pan gaewyd ysgolion oherwydd y pandemig) – ein diffiniad o bresenoldeb gwael. O ystyried ffocws yr adroddiad hwn ar rieni sydd â phlant â phroblemau presenoldeb, mae peth o'r data yn dangos y canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn yn unig.**

## Canfyddiadau allweddol gan bob rhiant

- Dywedodd 59% o'r holl rieni wrthym fod gan ysgol eu plentyn bolisi ysgrifenedig ar bresenoldeb a dywedodd 7% nad oes. Nid yw traean (34%) o rieni yn gwybod a oes gan ysgol eu plentyn bolisi presenoldeb ysgrifenedig, er bod hyn yn ofynnol.
- Dywedodd y mwyafrif helaeth (84%) o rieni eu bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau ysgol eu plentyn o ran presenoldeb. Dywedodd ychydig dros un o bob deg (11%) o rieni nad yw ysgol eu plentyn wedi cyfleu eu disgwyliadau ynghylch presenoldeb, gyda 5% o rieni yn ansicr.
- Mae 97% o rieni yn gyfforddus yn siarad â rhywun yn yr ysgol am ei pholisi presenoldeb. Athro dosbarth eu plentyn neu'r pennaeth oedd fwyaf poblogaidd, gyda staff derbyn yr ysgol yn dilyn.
- O ran ymateb i ddiffyg presenoldeb, dywedodd 38% o'r holl rieni fod yr ysgol yn cysylltu â nhw bob amser y bore hwnnw os yw eu plentyn yn absennol o'r ysgol, a dywedodd 16% arall eu bod yn cysylltu â nhw yr un bore fel arfer.
- Dywedodd 27% o'r holl rieni fod gan eu plentyn rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, gyda 19% yn dweud eu bod wedi gwaethygu ers y pandemig, 6% yn dweud eu bod fel ag yr oeddent cyn y pandemig a 2% yn dweud bod y sefyllfa wedi gwella ers y pandemig. Dywedodd 64% o rieni nad yw eu plentyn wedi cael rhwystrau a dywedodd 6% o rieni nad oes gan eu plentyn unrhyw rwystrau ar hyn o bryd ond fod ganddynt rai yn flaenorol.
- Disgrifiodd rhieni amrywiaeth o rwystrau a oedd yn dylanwadu ar eu plentyn yn mynychu'r ysgol, gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn nodi salwch fel ffactor allweddol, un o bob tri bod eu plentyn yn gwrthod mynd i'r ysgol a thua un o bob pump yn nodi anghenion nas diwallwyd.
- Dywedodd 25% o'r holl rieni fod eu plentyn wedi bod yn absennol am o leiaf 20 diwrnod mewn blwyddyn ysgol a dywedodd 62% o rieni nad yw eu plentyn wedi bod yn absennol. Nid oedd 13% o rieni yn siŵr a oedd eu plentyn wedi bod yn absennol am fwy nag 20 diwrnod.

*[1] Fe wnaethom ddewis peidio â diffinio presenoldeb gwael yn y testun rhagarweiniol gan ein bod am glywed gan rieni a oedd yn ystyried bod presenoldeb eu plentyn yn wael yn seiliedig ar eu diffiniad eu hunain.*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

# Canfyddiadau allweddol gan rieni â phlentyn â phresenoldeb gwael

- Mae rhieni ysgolion uwchradd yn cyfrif am ganran uwch o ymatebwyr â phlentyn â phroblemau presenoldeb na rhieni ysgol gynradd (53% o'i gymharu â 43%). Yn yr un modd, mae rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb yn fwy tebygol o ddweud bod gan eu plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o gymharu â'r holl ymatebwyr (29% o'i gymharu â 17%) ac yn fwy tebygol o fod â phlentyn sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PyDd) (38% o'i gymharu â 23%).
- Mae rhieni sydd â phlentyn â phroblemau presenoldeb yn fwy tebygol o gael eu cysylltu gan yr ysgol ar unwaith os yw eu plentyn yn absennol (62% yn dweud bob amser neu'n bennaf o'i gymharu â 54% o'r holl rieni).
- Dywedodd 59% o rieni â phlentyn â phresenoldeb gwael fod gan eu plentyn rwystrau i fynychu'r ysgol o gymharu â 27% o'r holl rieni. O'r rhai a nododd rwystrau, dywedodd 77% fod y sefyllfa wedi gwaethygu ers y pandemig, dywedodd 19% fod pethau wedi aros yn fras yr un peth a dywedodd 4% fod sefyllfa eu plentyn wedi gwella ers y pandemig.
- IYn ddiddorol, dywedodd mwy na chwarter (27%) o rieni nad oes gan eu plentyn unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, er gwaethaf cael mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb mewn blwyddyn ysgol.
- Rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb oedd fwyaf tebygol o adrodd eu bod yn wynebu rhwystrau yn ymwneud â materion iechyd (57% o rieni yn adrodd am rwystrau), gwrthodiad i fynd i'r ysgol (44%) a/neu anghenion heb eu diwallu (27%).
- Dywedodd bron i hanner (46%) y rhieni fod 20+ diwrnod o absenoldeb eu plentyn yn cynnwys cyfnodau o absenoldeb byrrach ar draws y flwyddyn o gymharu â 14% a ddywedodd fod absenoldeb eu plentyn yn gyfnodau olynol o amser (e.e. 10 diwrnod neu fwy). Dywedodd 38% wrthym ei fod yn gyfuniad o'r ddau.
- Gofynnwyd i hanner y rhieni (50%) am fanylion materion a allai fod yn effeithio ar fod eu plentyn yn yr ysgol a dywedodd 47% nad yw ysgol eu plentyn wedi gwneud ymholiadau. Mae rhieni ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o gael eu holi na rhieni ysgolion cynradd, fel y mae rhieni sydd â phlentyn ag ADY a rhieni â phlentyn sy'n gymwys i gael PyDd o gymharu â rhieni heb blentyn ag ADY neu heb PyDd
- Dywedodd llawer o rieni fod ysgol eu plentyn wedi cynnig rhywfaint o gymorth, gyda chardiau 'seibiant' o wersi ac addasiadau eraill yn y dosbarth/ysgol, sesiynau cwnsela, athrawon cefnogol, a chefnogaeth llesiant yn rai o'r ymatebion mwyaf cyffredin.
- Amserlen wahanol oedd y math mwyaf poblogaidd o gefnogaeth a grybwyllwyd - dywedodd un rhan o bump o rieni (21%) fod yr ysgol wedi awgrymu amserlen wahanol i gefnogi eu plentyn i ddychwelyd i'r ysgol, gan godi i 36% o rieni gyda phlentyn ag ADY a 28% o rieni ysgol uwchradd.
- Dywedodd 29% o rieni fod gan ysgol eu plentyn Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (FEO) neu aelod tebyg o staff: o'r rhain dywedodd 45% eu bod wedi eu cefnogi i helpu eu plentyn i fynychu'r ysgol o gymharu â 55% a ddywedodd nad yw'r FEO wedi bod yn gefnogol . Mae rhieni sydd â phlentyn ar PyDd yn fwy tebygol o ddweud bod gan ysgol eu plentyn Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd sy'n eu cefnogi i helpu eu plentyn i fynychu'r ysgol na rhieni nad ydynt yn cael PyDd.
- Dywedodd bron i un o bob pump (19%) o rieni fod ysgol eu plentyn wedi awgrymu eu cyfeirio at asiantaethau eraill a allai roi cymorth iddynt helpu eu plentyn i fynychu'r ysgol. Mae rhieni sydd â phlentyn ag ADY, mewn ysgol uwchradd neu o leoliad trefol yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio na rhieni eraill. Yr atgyfeiriad a grybwyllwyd amlaf oedd at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Mae 22% o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb wedi cael rhywfaint o gysylltiad â Gwasanaeth Lles eu Hawdurdod Lleol. Mae rhieni â phlentyn ag ADY a rhieni ysgol uwchradd yn fwy tebygol o wneud hynny na rhieni eraill. Cymysg oedd yr adborth ar y cymorth a gynigiwyd.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parentkind
Bringing together home & school

- Yn yr un modd, cymysg yw sgôr rhieni o'r cymorth presenoldeb a dderbynnir gan yr ysgol hefyd. Mae ychydig dros draean (36%) o rieni o'r farn bod y cymorth a dderbyniwyd gan ysgol eu plentyn ar bresenoldeb yn dda o gymharu â chwarter y rhieni (25%) yn graddio'r cymorth a dderbyniwyd yn wael. Dywedodd traean o rieni (34%) nad oedd y cymorth yn dda nac yn ddrwg.
- Mae rhieni ysgolion cynradd yn graddio'r cymorth y maent wedi'i gael gan ysgol eu plentyn yn uwch na rhieni ysgol uwchradd (dywedodd 46% o rieni cynradd ei fod yn dda o'i gymharu â 33% o rieni uwchradd), fel y mae hefyd rieni â phlentyn heb ADY (41% o'i gymharu â 35% o rieni â phlentyn ag ADY) a rhieni mewn lleoliad trefol (41% o gymharu â 36% o rieni mewn lleoliad gwledig).
- Pan ofynnwyd iddynt pa gymorth yr oedd eu teulu wedi'i ganfod fwyaf defnyddiol, y thema fwyaf poblogaidd o gryn dipyn oedd staff cefnogol/oedd yn deall, ac yna cyfathrebu da/cysylltu'n hawdd, amserlen wahanol, a chael mynediad at dîm iechyd meddwl/llesiant.
- Gan fyfyrio ar ffyrdd eraill y gallai'r ysgol gefnogi teuluoedd i wella presenoldeb, mae ymatebion rhieni'n disgyn i themâu tebyg i'r rhai uchod. Staff yn dangos mwy o ddealltwriaeth a gwell cyfathrebu/yn haws cysylltu â nhw oedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd, wedi'u dilyn gan ddiagnosis a/neu ymyrraeth gynharach, i staff ysgol wrando ar y plentyn yn uniongyrchol, y gallu i wneud gwaith ysgol gartref, i bryderon gael eu clywed a chymorth gwell, gan gynnwys cymorth ADY.
- Yn olaf, dim ond 3% o rieni â phlentyn â phresenoldeb gwael a ddywedodd eu bod erioed wedi derbyn unrhyw hysbysiadau cosb benodedig/dirwyon oherwydd nad oedd eu plentyn yn mynychu'r ysgol, gyda 96% o rieni yn dweud wrthym nad oeddent wedi'u derbyn.



# 2. Cyflwyniad

**“Ymddengys mai canlyniad amlycaf absenoldeb ysgol yw’r effaith ar gyrhaeddiad academaidd dysgwr. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod “presenoldeb yn cael effaith gref ar ddeilliannau, safonau a dilyniant dysgwyr a bod canlyniadau arholiadau yn cyfateb yn gryf i gyfraddau presenoldeb”. Mae hyn yn y pen draw yn effeithio ar addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth tymor hwy person ifanc.**

**“Gall colli ysgol hefyd gael effaith ar les disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cymysgu â grwpiau cyfeillgarwch, meithrin gwytnwch a chael mynediad at y cymorth iechyd meddwl y gall ysgolion ei gynnig i’w dysgwyr.” [2]**

Mae lleihau absenoldebau ysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Er bod y wybodaeth a gasglwyd ac a gyhoeddwyd ar sut y newidiodd data presenoldeb ysgol yn ystod y pandemig yn ei gwneud hi’n anodd nodi’n llawn y tueddiadau am bresenoldeb presennol yn yr ysgol o gymharu â chyn-Covid, mae presenoldeb wedi gwaethygu. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod absenoldeb cyffredinol rhwng 3.5 a 5 pwynt canran yn uwch, bron ddwywaith y lefel cyn y pandemig[3].

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau presenoldeb newydd ym mis Medi 2023, ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan lais y rhieni, comisiynodd Llywodraeth Cymru Parentkind i gynnal ymchwil ymhlith rhieni a gofalwyr yng Nghymru sydd â phlentyn â phroblemau presenoldeb, er mwyn deall mwy am y rhesymau dros eu habsenoldebau, y gefnogaeth a gynigir, a pha gymorth fyddai’n ddefnyddiol i’w teulu.

Rhannwyd manylion yr arolwg gan Lywodraeth Cymru gyda’r testun ategol yn gwahodd rhieni a gofalwyr â phlentyn sydd â phresenoldeb gwael ar hyn o bryd, neu sydd wedi cael problemau â phresenoldeb gwael, i lenwi’r holiadur ar-lein[4].

Fel y manylir yn adran 3, cafwyd ymateb mawr i’r arolwg, gyda 2,616 o ymatebion i gyd, 654 ohonynt gan rieni â phlentyn sydd wedi bod yn absennol am fwy nag 20 diwrnod mewn blwyddyn ysgol (ac eithrio pan gaewyd ysgolion oherwydd y pandemig). Er nad ydym yn gwybod a yw’r canlyniadau’n gynrychioliadol o holl rieni Cymru gan ei fod wedi’i leoli fel arolwg ar gyfer rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb (ac felly rydym yn rhagweld y bydd rhieni plant heb bresenoldeb gwael yn llai tebygol o fod wedi’i gwblhau) rydym yn wedi derbyn nifer ddigon mawr o ymatebion gan rieni y mae eu plentyn wedi cael mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb i roi hyder i ni yn y canlyniadau hynny ar gyfer y grŵp targed hwn o rieni a gofalwyr.

[2] *https://research.senedd.wales/research-articles/increased-school-absence-how-did-the-pandemic-affect-school-attendance/*
[3] *https://www.gov.wales/summary-absenteeism-school-and-during-coronavirus-covid-19-pandemic-september-2014-august-2022-html cited in https://research.senedd.wales/research-articles/increased-school-absence-how-did-the-pandemic-affect-school-attendance/*
[4] *Fe wnaethom ddewis peidio â diffinio presenoldeb gwael yn y testun rhagarweiniol gan ein bod am glywed gan rieni a oedd yn ystyried bod presenoldeb eu plentyn yn wael yn seiliedig ar eu diffiniad eu hunain.*

# 3. Methodoleg

**Roedd arolwg ar-lein, a hyrwyddwyd i rieni plant oedran ysgol â phroblemau â phresenoldeb isel[5] trwy ysgolion a chysylltiadau eraill â Llywodraeth Cymru, yn weithredol rhwng 24 Tachwedd 2022 a 24 Ionawr 2023. Cwblhaodd cyfanswm o 2,616 o rieni yr arolwg, gyda 2,584 o rieni yn cwblhau'r fersiwn iaith Saesneg a 32 o rieni yn cwblhau'r fersiwn Gymraeg. Lle'r oedd gan rieni fwy nag un plentyn â phroblemau presenoldeb, gofynnwyd iddynt ateb y cwestiynau gydag un o'r plant hyn yn benodol mewn golwg.**

**Dylid nodi bod yr adroddiad yn blaenoriaethu ymatebion rhieni a ddywedodd fod eu plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol am o leiaf 20 diwrnod mewn blwyddyn ysgol. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae hyn oherwydd bod ffocws yr adroddiad hwn ar rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb. Gellir gwahaniaethu canlyniadau yn ôl nifer yr ymatebion ar bob siart (N=) a lliwiau siart (mae ffigurau 1-12 mewn glas yn dangos canlyniadau pob rhiant ac mae ffigurau 13-36 mewn porffor yn dangos canlyniadau rhieni â phlentyn ag o leiaf 20 diwrnod ' absenoldeb).**

**Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf er mwyn gwneud y dehongliad yn syml ac felly efallai na fyddant yn adio i 100%.**



*[5]Wedi'i ddiffinio yn yr arolwg hwn fel mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb mewn blwyddyn ysgol*

# 4. Demograffeg yr ymatebwyr

**FFIGUR 1** *Pa fath o ysgol mae eich plentyn yn ei mynychu?*




*N = 2,616*

**FFIGUR 2** *Ydych chi'n ystyried eich hun yn byw mewn lleoliad trefol (h.y. tref, dinas) neu leoliad gwledig (h.y. pentref)?*




*N = 2,616*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

**FFIGUR 3** *A oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?*




*N = 2,616*

**FFIGUR 4** *Ydych chi'n hawlio unrhyw fudd-daliadau sy'n golygu bod eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim?*




*N = 2,616*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

# 5. Canlyniadau

## 5.1. Disgwyliadau a pholisïau presenoldeb

**Gofynnwyd i rieni a oes gan ysgol eu plentyn bolisi ysgrifenedig ar bresenoldeb. Fel y dengys Ffigur 5, dywedodd 59% o'r holl rieni wrthym fod polisi o'r fath gan eu hysgol a dywedodd 7% nad oes. Yn ddiddorol, nid yw traean (34%) o rieni yn gwybod a oes gan ysgol eu plentyn bolisi presenoldeb ysgrifenedig, er bod hwn yn ofyniad.**

**FFIGUR 5** *A oes gan ysgol eich plentyn bolisi ysgrifenedig ar bresenoldeb?*




*N = 2,610*

Dywedodd y mwyafrif helaeth (84%) o rieni eu bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau ysgol eu plentyn o ran presenoldeb (Ffigur 6). Dywedodd ychydig dros un o bob deg (11%) o rieni nad yw ysgol eu plentyn wedi cyfleu eu disgwyliadau ynghylch presenoldeb, gyda 5% o rieni yn ansicr. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni a oedd yn gwybod am ddisgwyliadau presenoldeb fod y wybodaeth hon yn glir ac yn hawdd ei deall (56% yn hawdd iawn, 28% yn eithaf hawdd - Ffigur 7).

**FFIGUR 6** *A yw'r ysgol wedi cyfleu ei disgwyliadau ynghylch presenoldeb gyda chi?*




*N = 2,616*

**FFIGUR 7** *A oedd y wybodaeth hon yn glir ac yn hawdd ei deall?*




*N = 2,333*

Rhestrodd 97% o rieni o leiaf un cyswllt yn yr ysgol y byddent yn gyfforddus yn siarad â hwy am bolisi presenoldeb yr ysgol. Dywedodd tua dwy ran o dair o rieni y byddent yn teimlo'n gyfforddus yn trafod polisi presenoldeb yr ysgol gydag athro dosbarth eu plentyn neu bennaeth yr ysgol, gyda bron i hanner yn dweud y byddent yn hapus i ymgysylltu â staff derbyn yr ysgol gyda chwestiynau (Ffigur 8).

Crybwyllwyd rolau mwy penodol fel Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd neu Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol gan gyfran lawer llai o rieni, er bod hyn yn debygol o adlewyrchu na fyddai pob ysgol yn gallu eu cynnig fel opsiwn.

**FFIGUR 8** *Pe bai gennych gwestiynau am bolisi presenoldeb yr ysgol, gyda phwy y byddech yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am y cwestiynau hynny?*




*N = 2,333*

O ran dilyniant ar ddiffyg presenoldeb, dywedodd 38% o'r holl rieni wrthym fod yr ysgol yn cysylltu â nhw bob amser y bore hwnnw os yw eu plentyn yn absennol o'r ysgol, a dywedodd 16% arall y cysylltir â nhw fel arfer yr un bore (Ffigur 9). Dywedodd 9% o rieni mai dim ond ar rai achlysuron y cysylltir â nhw'n syth a dywedodd bron i un rhan o bump (18%) na chysylltir â'u plentyn yr un bore os yw'n absennol. Nid oedd un rhan o bump o'r holl rieni'n gwybod a yw ysgol eu plentyn yn cysylltu â nhw ar unwaith os yw eu plentyn yn absennol.

**FFIGUR 9** *Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol, a yw'r ysgol yn cysylltu â chi ar unwaith h.y. yr un bore?*




*N = 2,610*

## 5.2. Rhwystrau rhag mynychu’r ysgol

**Gofynnwyd i rieni a oedd gan eu plentyn unrhyw rwystrau i fynychu’r ysgol yn rheolaidd ai peidio. Fel y dengys Ffigur 10, er i 64% o rieni ddweud na, dywedodd mwy na chwarter (27%) y rhieni fod hynny’n wir, gyda 19% yn dweud fod y rhwystrau wedi gwaethygu ers y pandemig, 6% yn dweud eu bod fel yr oeddent cyn y pandemig a 2% yn dweud bod y sefyllfa wedi gwella ers y pandemig. Dywedodd 6% arall o rieni nad oedd gan eu plentyn unrhyw rwystrau ar hyn o bryd ond fod yna rai yn flaenorol.**

**FFIGUR 10** *A oes gan eich plentyn unrhyw rwystrau i fynychu’r ysgol yn rheolaidd?*




*N = 2,604*

Disgrifiodd rhieni amrywiaeth o rwystrau a oedd yn dylanwadu ar eu plentyn yn mynychu’r ysgol, gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn nodi salwch fel ffactor allweddol, un o bob tri bod eu plentyn yn gwrthod mynd i’r ysgol a thua un o bob pump bod gan eu plant anghenion heb eu diwallu (Ffigur 11).

Cafodd y cwestiwn hwn hefyd nifer anarferol o uchel o ymatebion ‘Arall’, gyda thua thraean o rieni yn rhoi rhyw fath o sylw ychwanegol. Roedd rhai o’r rhain yn tynnu sylw at ffactorau nad oeddent yn y rhestr, ond mewn nifer o achosion fe wnaethant nodi’r ffactorau a oedd wedi’u cynnwys, ond aethant i fanylder ynghylch beth roedd hynny’n ei olygu’n ymarferol a pham ei fod yn broblem.

Gallai’r materion mwyaf cyffredin a godwyd o dan y categori ‘Arall’ gael eu grwpio’n fras i blentyn sy’n cael problemau’n ymwneud ag iechyd meddwl (125 o ymatebion) neu faterion meddygol (95 o ymatebion), gyda nifer sylweddol ohonynt yn ymwneud â chyflyrau cronig na ddisgwylid iddynt wella ac mae’n bosibl iawn y caent eu dosbarthu fel anableddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Roedd tua 44 o ymatebion ‘Arall’ yn ymwneud â materion yn ymwneud â’r plentyn yn anhapus yn yr ysgol neu ag amgylchedd yr ysgol. Er y crybwyllwyd bwlio gan ddisgyblion eraill, roedd peth o hyn hefyd yn ymwneud ag ymddygiad athrawon a materion ehangach, gan gynnwys rhai yn ymwneud â pholisïau ysgol a oedd yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar bresenoldeb, megis cyfyngu ar egwyliau toiled yn ystod gwersi gan arwain at sefyllfaoedd anodd gyda disgyblion oedd yn dioddef mislif.



Llywodraeth Cymru Welsh Government
Parentkind Bringing together home & school

39 Roedd ymatebion 'Arall' yn codi materion yn ymwneud â mynd i'r ysgol ac oddi yno, gyda thua dwy ran o dair yn ymwneud yn uniongyrchol â
materion cludiant a'r traean arall yn ymwneud ag anawsterau a brofir gan y rhiant (anableddau neu salwch yn nodweddiadol) a oedd yn effeithio ar eu gallu i gael eu plant i'r ysgol.

Soniodd 21 o rieni yn benodol am Covid ac effaith gyffredinol y pandemig fel rhywbeth sydd wedi effeithio ar bresenoldeb eu plentyn.

**FFIGUR 11** *Pa fath o rwystrau ydych chi'n eu hwynebu wrth gefnogi'ch plentyn i fynychu'r ysgol?*




*N = 915*

Gofynnwyd i rieni a oedd eu plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol am fwy nag 20 diwrnod yn y flwyddyn ysgol lawn ddiwethaf (2021-22), neu mewn blynyddoedd ysgol blaenorol (ond heb gynnwys pan gaewyd ysgolion oherwydd Covid). Dywedodd 25% o rieni oedd, roedd eu plentyn wedi bod yn absennol am o leiaf 20 diwrnod mewn blwyddyn ysgol a dywedodd 62% o rieni nad oedd eu plentyn wedi bod (Ffigur 12). Nid oedd 13% o rieni yn siŵr a oedd eu plentyn wedi bod yn absennol am fwy nag 20 diwrnod.

**FFIGUR 12** *A yw eich plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol am fwy nag 20 diwrnod yn y flwyddyn ysgol lawn ddiwethaf (2021-22), neu mewn blynyddoedd ysgol blaenorol (ac eithrio pan gaewyd ysgolion oherwydd Covid)?*




*N = 2,605*

**Mae adran nesaf y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion gan y 654 o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb, yr ydym yn eu diffinio fel y rheini sydd â phlentyn yn absennol o'r ysgol am o leiaf 20 diwrnod mewn blwyddyn ysgol (ac eithrio cau ysgolion oherwydd y pandemig).**

Cyn archwilio canlyniadau'r cwestiynau arolwg sy'n weddill, mae'n werth nodi bod rhai gwahaniaethau yn y dadansoddiad demograffig o'r rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb o gymharu â demograffeg yr holl rieni a ymatebodd a gwmpesir yn Adran 4. Fel mae Tabl 1 yn dangos, mae rhieni ysgolion uwchradd yn cyfrif am ganran uwch o ymatebwyr â phlentyn â phroblemau presenoldeb na rhieni ysgol gynradd (53% o'i gymharu â 43%) o gymharu â'r dadansoddiad ar gyfer yr holl rieni a gwblhaodd yr arolwg hwn. Yn yr un modd, mae rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb yn fwy tebygol o ddweud bod gan eu plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o gymharu â'r holl ymatebwyr (29% o'i gymharu â 17%) ac yn fwy tebygol o fod â phlentyn sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PyDd) (38% o'i gymharu â 23%).

O edrych ar ganlyniadau cwestiynau blaenorol yn benodol ar gyfer y rhieni hynny â phlentyn â phroblemau presenoldeb, yn gyffredinol mae'r canlyniadau yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn gynharach ar gyfer pob rhiant (gweler yr Atodiad am ddata). Un gwahaniaeth yw bod rhieni sydd â phlentyn â phroblem presenoldeb yn fwy tebygol o gael eu cysylltu gan yr ysgol ar unwaith os yw eu plentyn yn absennol (62% yn dweud bob amser neu gan amlaf o gymharu â 54% o'r holl rieni).

Y gwahaniaeth mawr arall, nid yw'n syndod, yw'r ganran o rieni sy'n dweud wrthym fod gan eu plentyn rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fel y dengys Ffigur 13, dywedodd bron i chwech o bob deg (59%) o'r rhieni hyn oes, mae gan eu plentyn rwystrau i fynychu'r ysgol o gymharu â 27% o'r holl rieni (Ffigur 10). Yn ddiddorol, dywedodd mwy na chwarter (27%) o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb nad oes gan eu plentyn unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, er gwaethaf cael mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb yn y flwyddyn ysgol.



## TABL 1 *Dadansoddiad demograffig o'r garfan o rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb:*

| | % y rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb *(N=654)* | % yr holl rieni *(N=2,616)* |
|---|---|---|
| **MATH O YSGOL:** | | |
| Cynradd | **43%** | 52% |
| Uwchradd | **53%** ↑ | 45% |
| Arbennig | **2%** | 1% |
| Ysgol Gydol Oes 3-18 | **2%** | 2% |
| **LLEOLIAD:** | | |
| Gwledig | **45%** | 45% |
| Trefol | **45%** | 48% |
| Ddim yn gwybod | **10%** | 7% |
| **ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY):** | | |
| Oes | **29%** ↑ | 17% |
| Nag oes | **59%** | 76% |
| Ddim yn gwybod/gwell gen i beidio â dweud | **12%** | 7% |
| **CYMWYS AR GYFER PRYDAU YSGOL AM DDIM (PYDD)** | | |
| Ydi | **38%** ↑ | 23% |
| Nac ydi | **58%** | 74% |
| Ddim yn gwybod/gwell gen i beidio â dweud | **4%** | 3% |

## FFIGUR 13 *A oes gan eich plentyn unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd? (Rhieni gyda phlentyn sydd â phroblemau presenoldeb)*




*N = 650*



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

Roedd rhieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn wynebu rhwystrau yn ymwneud â materion iechyd, eu bod yn gwrthod mynd i'r ysgol a bod ganddynt anghenion heb eu diwallu (Ffigur 14). Ar y cyfan, mae dosbarthiad y rhwystrau yn gymharol debyg i'r hyn a ymatebodd pob rhiant, er bod cynnydd mwy sylweddol mewn gwrthod mynychu'r ysgol.

Mae darlun tebyg i'w weld ymhlith y traean o rieni a roddodd ymatebion 'Arall', a oedd yn cynnwys cymysgedd o rwystrau eraill a rhieni yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y rhwystrau a restrir uchod. Yn yr ymatebion hyn, nododd rhieni y gallai 'sâl' gyfeirio at faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl (125 o ymatebion) yn ogystal ag iechyd corfforol (95 o ymatebion) ac y gallai gwrthod mynd i'r ysgol fod yn gysylltiedig â nifer o ffactorau gwahanol (e.e. profedigaeth, bwlio, bod yn anhapus yn yr ysgol neu amgylchedd yr ysgol, materion ymddygiad, ac ati.)

**FFIGUR 14** *Pa fath o rwystrau ydych chi'n eu hwynebu wrth gefnogi'ch plentyn i fynychu'r ysgol?*




Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau roedd profiadau rhieni o'r rhwystrau hyn wedi newid yn dilyn y pandemig, er mwyn deall beth allai fod yn gyrru'r cynnydd mewn absenoldeb a adroddwyd yng Nghymru. Ymhlith rhieni plant â phroblemau presenoldeb a ddywedodd eu bod wedi profi rhwystrau penodol, dywedodd 4% fod y sefyllfa wedi gwella ers y pandemig, dywedodd 19% fod pethau wedi aros yn fras yr un peth a dywedodd 77% fod y sefyllfa wedi gwaethygu ers y pandemig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ailadroddwyd y proffil hwn yn fras ar draws y gwahanol fathau o rwystrau ac ar draws gwahanol grwpiau o rieni, ond mewn rhai lleoedd roedd gwahaniaethau nodedig:

- Roedd rhieni â phlant mewn ysgol uwchradd yn fwy tebygol o adrodd bod rhwystrau wedi gwaethygu (81%) na'r rheini â phlant mewn ysgol gynradd (71%).
- Roedd rhieni'n fwy tebygol o adrodd bod y sefyllfa wedi gwaethygu ers y pandemig pan ddoi i blant yn gwrthod mynd i'r ysgol (85% o'i gymharu â 77%), gallu fforddio cludiant (84% o'i gymharu â 77%) a chost gwisg ysgol a chostau eraill mynychu'r ysgol (90% o'i gymharu â 77%)
- Adroddodd rhieni lai o broblemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ar ôl y pandemig. Ar gyfartaledd, dywedodd 4% o rieni plant â phresenoldeb gwael wrthym fod problemau wedi gwella, ond cododd hyn i 9% ymhlith rhieni a soniodd am faterion trafnidiaeth fel rhwystr. Yn ddiddorol, nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol mewn materion trafnidiaeth a adroddwyd rhwng rhieni mewn lleoliadau gwledig neu drefol.

Yna gofynnwyd i rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb ynghylch dosbarthiad yr absenoldebau hyn. Fel y dengys Ffigur 15, dywedodd bron i hanner (46%) fod 20+ diwrnod o absenoldeb eu plentyn yn cynnwys cyfnodau o absenoldeb byrrach ar draws y flwyddyn o gymharu â 14% a ddywedodd fod absenoldeb eu plentyn yn gyfnodau olynol o amser (e.e. 10 diwrnod neu fwy ). Dywedodd 38% wrthym ei fod yn gyfuniad o'r ddau.

**FFIGUR 15** *Os ie, a fyddech chi'n dweud bod absenoldeb eich plentyn yn...*




*N = 651*

Gofynnwyd i hanner y rhieni (50%) am fanylion unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar fod eu plentyn yn yr ysgol a dywedodd 47% nad yw ysgol eu plentyn wedi gwneud ymholiadau (Ffigur 16). Mae rhieni ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o gael eu holi am unrhyw faterion na rhieni ysgol gynradd (Ffigur 17), fel y mae rhieni â phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a rhieni â phlentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) o gymharu â rhieni heb blentyn ag ADY neu heb PYDd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parentkind
Bringing together home & school

**FFIGUR 16** *A yw eich ysgol wedi gofyn i chi am fanylion unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar eich plentyn yn mynychu'r ysgol?*




*N = 653*

**FFIGUR 17** *A yw eich ysgol wedi gofyn i chi am fanylion unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar eich plentyn yn mynychu'r ysgol? Yn ôl math o ysgol/lleoliad/ADY/PYDd*




*N = 560 - 611*
*Ysgolion 3-18/ysgolion arbennig/ddim yn gwybod/gwell gen i beidio dweud wedi'u hepgor*



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Parentkind Bringing together home & school

## 5.3. Cefnogaeth a gynigir

**Gofynnwyd i rieni pa gymorth y mae ysgol eu plentyn wedi'i gynnig. Roedd hwn yn gwestiwn agored a roddodd gannoedd o atebion. Roedd yr ymatebion a roddwyd gan rieni â phlentyn â phroblemau presenoldeb yn cynnwys gwahanol amserlenni, cardiau 'seibiant' o wersi ac addasiadau eraill yn y dosbarth/ysgol, sesiynau cwnsela, athrawon cefnogol, a chymorth lles. Dangosir amlder cymharol y themâu yn Ffigur 18. Nid oedd gan eu plentyn unrhyw rwystrau ar hyn o bryd ond roedd rhai yn flaenorol.**

**FFIGUR 18** *Pa gymorth y mae ysgol eich plentyn wedi'i gynnig?*






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parentkind
Bringing together home & school

Isod mae rhai dyfyniadau gan rieni:

*“Mae fy mhlentyn wedi cael cynnig cymorth lles ac wedi cael ei atgyfeirio’n ddiweddar at gwnselydd yr ysgol.”*

*“Nyrs Ysgol, cyfarfodydd rheolaidd, amserlen lai, newid dosbarthiadau a grwpiau dosbarth ac ati.”*

*“Maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn mewn perthynas â phroblemau personol y teulu. Arweiniodd eu cymorth at wella presenoldeb fy mhlentyn.”*

*“Cyflwyniad yn ôl i’r ysgol, roedd hyn ar ôl y pandemig, gan hwyluso fy mab yn ôl i drefn yr ysgol gyda dyddiau byrrach a chefnogaeth ychwanegol. Cafodd ei annog a’i wneud i deimlo’n hyderus ynglŷn â dychwelyd i’r ysgol.”*

*“Llai o amserlen a CDU yn ei le. Llawer o addasiadau wedi’u gwneud.”*

*“Dosbarthiadau cefnogi a dosbarth anogaeth ar gyfer egwyl a chinio. Amserlen lai hefyd.”*

*“Gofal a sylw, hefyd gwaith i’w gwblhau o’r cartref os yn bosibl.”*

*“Mae gan yr ysgol dîm anogaeth sy’n darparu cefnogaeth ac anogaeth barhaus ac yn cynnig gofod diogel i’r plentyn.”*

*“Cadw cyswllt gyda fy mhlentyn yn rheolaidd pan yn yr ysgol.”*

*“Oherwydd salwch parhaus rydw i wedi cael codau mynediad ar gyfer dysgu ar-lein pan fydd fy mhlentyn yn teimlo’n ddigon da i’w wneud.”*

*“Sesiynau llesiant, mynediad i ystafell les, cerdyn seibiant.”*

*“Mae Cydlynydd ADY yn cael sesiynau lles rheolaidd gyda fy mhlentyn, maent yn rhoi lle tawel iddi pan fo angen. Maent yn gwbl gefnogol ac yn helpu’n aruthrol.”*

*“Rydym yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yr ysgol i geisio cael fy merch i mewn.”*

*“Mae gwaith yn cael ei ychwanegu at ystafell ddosbarth Google, a chynllun proses i helpu fy mhlentyn i ddal i fyny â gwaith a gollwyd.”*

Fodd bynnag, dylid nodi mai’r ymateb mwyaf cyffredin i’r cwestiwn am y cymorth a gynigiwyd oedd dim.

*“Dim, dim ond bygythiadau o ddirwyon.”*

*“Dim. Gofyn am gael siarad â’r pennaeth a ddywedodd eu bod yn brysur iawn.”*

*“Dim byd heblaw am gyfathrebu cyson i’m hatgoffa o bresenoldeb gwael.... Ddim yn helpu’r sefyllfa.”*

